# Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion

**Beth mae'r Ysgol neu'r Darparwr Blynyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn ei wneud â Gwybodaeth Addysgol a gedwir ganddynt am Blant a Phobl Ifanc**

I fodloni gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), mae'n rhaid i ysgolion gyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd i blant a phobl ifanc a/neu rieni a gwarcheidwaid yn crynhoi'r wybodaeth a gedwir am blant a phobl ifanc, pam y caiff ei chadw, a'r trydydd partïon y gallai gael ei rhoi iddynt.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol a pherfformiad plant neu bobl ifanc gan yr Ysgol, Cyngor Caerdydd (ALl) a Llywodraeth Cymru.

## Casglu gwybodaeth bersonol

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol pan fo plant a phobl ifanc yn cofrestru'n yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol a gall gadw gwybodaeth gan ysgolion gwahanol pan fo plant a phobl ifanc yn symud.

Mae'r Ysgol yn prosesu'r wybodaeth mae'n ei chasglu i weinyddu'r addysg a rydd i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- rhoi gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion/plant;
- rhoi gwasanaethau lles, gofal bugeiliol ac iechyd;
- rhoi cymorth a chanllawiau i blant a phobl ifanc, eu rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a thripiau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

## Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol (ALl)

Caiff **Llywodraeth Cymru** wybodaeth am ddisgyblion yn uniongyrchol gan ysgolion fel arfer fel rhan o brosesau casglu data statudol yn cynnwys y canlynol:

- Casglu data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu lefel disgyblion a addysgwyd heblaw yn yr ysgol (AHYYY)
- Casglu data cenedlaethol (CDC)
- Casglu data presenoldeb
- Casglu data Profion Cenedlaethol Cymru (PCC)

Yn ogystal â'r data a gesglir fel rhan o CYBLD, caiff Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol hefyd wybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau cyhoeddus, a data presenoldeb ar lefel disgybl unigol a ddaw gan Ysgolion a/neu Gyrff Dyfarnu (e.e. CBAC).

Defnyddia Llywodraeth Cymru'r wybodaeth bersonol hon at ddibenion ymchwil (a gynhelir mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod plant a phobl ifanc unigol) ac at ddibenion ystadegol, i lywio, dylanwadu a gwella polisi addysg ac i fonitro perfformiad addysgol y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Gallwch weld enghreifftiau o ystadegau a grëir yn www.cymru.gov.uk/ystadegau. Mae gwybodaeth bellach am ddefnydd Llywodraeth Cymru o ddata personol ym Mholisi Preifatrwydd Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma.

Mae'r ALl hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir i gynnal ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil hon i wneud penderfyniadau ar bolisi ac ariannu ysgolion, i gyfrifo perfformiad ysgolion a'u helpu i bennu targedau. Cynhelir yr ymchwil mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod plant a phobl ifanc unigol.

**Gwybodaeth bersonol a gedwir**

Mae'r math o wybodaeth bersonol a gaiff ei gadw'n cynnwys:

- manylion personol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni, nodweddion y plentyn/person ifanc a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid;
- gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol arbennig;
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol;
- gwybodaeth am darddiad ethnig a hunaniaeth genedlaethol plant a phobl ifanc (a ddefnyddir i baratoi dadansoddiadau ystadegol cryno);
- manylion am statws mewnfudo plant a phobl ifanc (a ddefnyddir i baratoi dadansoddiadau ystadegol cryno);
- gwybodaeth feddygol sydd ei hangen i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel tra eu bod yng ngofal yr ysgol/darparwr Blynyddoedd Cynnar;
- gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd;
- gwybodaeth am gyfraniad gan y gwasanaethau cymdeithasol o ran plant a phobl ifanc unigol pan fo angen hyn at ddibenion gofal y plentyn/person ifanc.

**Sefydliadau a allai rannu gwybodaeth bersonol**

Gallai gwybodaeth a gedwir gan yr ysgol, darparwyr Blynyddoedd Cynnar, yr ALl a Llywodraeth Cymru am blant a phobl ifanc, eu rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol hefyd gael ei rhannu â sefydliadau pan fo'r gyfraith yn caniatáu hynny ac ar yr amod y gweithredir yn briodol i gadw'r wybodaeth yn ddiogel, er enghraifft;

- cyrff addysgol a hyfforddiant eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fo plant a phobl ifanc yn gwneud cais am gyrsiau neu hyfforddiant, symud ysgol neu geisio arweiniad ar gyfleoedd;

- cyrff dan gontract i gynnal ymchwil i Lywodraeth Cymru, yr ALl ac ysgolion/darparwyr Blynyddoedd Cynnar gan weithredu'n briodol i sicrhau bod y wybodaeth yn ddefnyddiol;
- llywodraeth ganolog a lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill pa fo angen rhannu gwybodaeth i ddiogelu a chefnogi plant a phobl ifanc unigol;
- darparwyr y System Rheoli Gwybodaeth (MIS) er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio a'i bod yn gywir;
- cyflenwyr cymeradwy system 'dim arian parod' y Cyngor neu Ysgolion i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid â chyfrifoldeb rhiant a staff yr ysgol yn gallu ei defnyddio'n briodol;
- System Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth Y De i ategu dadansoddiad ystadegol rhanbarthol, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
- amrywiaeth o gyrff rheoleiddiol, fel ombwdsmyn ac awdurdodau arolygu, pan fo'n ofynnol dan y gyfraith i wybodaeth gael ei hanfon ymlaen fel y gallant wneud eu gwaith;
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella ansawdd ystadegau mudo a phoblogaeth

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau penodol dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys hawl gyffredinol i gael mynediad i ddata personol a gedwir amdanynt gan unrhyw "reolwr data". Yn ôl y gyfraith, yn 13 oed mae plant a phobl ifanc yn ddigon aeddfed i ddeall eu hawliau a gwneud cais hawl unigol eu hunain os dymunant. Disgwylir i riant wneud cais ar ran plentyn os yw'n iau na hynny. Os hoffech weld eich data personol chi neu'ch plentyn, ysgrifennwch at y sefydliad perthnasol.

**Gwybodaeth arall**

Mae diogelwch gwybodaeth yn bwysig iawn i'r ALl, ysgolion a Llywodraeth Cymru ac mae nifer o weithdrefnau ar waith i leihau'r posibiliad o gyfaddawdu diogelwch data. Bydd yr ALl, yr ysgol a Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n gywir bob amser a'i phrosesu'n unol â'n gofynion cyfreithiol.

**Eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Mae'r cyfreithiau Diogelu Data'n rhoi hawliau penodol i unigolion o ran y wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Yn eu plith mae:

- yr hawl i ofyn am a chael copïau o wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, er y gall rhywfaint o wybodaeth gael ei dal yn ôl yn gyfreithiol;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os bydd gwneud hynny'n achosi niwed neu ofid;
- yr hawl i ofyn i wybodaeth gael ei chywiro;
- yr hawl i ofyn i wybodaeth beidio â chael ei phrosesu

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Ddeddf Diogelu Data, asesu p'un ai a yw'r gwaith o ddiogelu data personol yn

debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol.

**Ceisio rhagor o wybodaeth**

I gael rhagor o wybodaeth am wybodaeth bersonol a gesglir a'r defnydd a wneir ohoni, os oes gennych bryderon am gywirdeb gwybodaeth bersonol, neu'ch bod am arfer eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, dylech gysylltu â:

- yr ysgol ar ysgolpenygroes@cardiff.gov.uk
- Swyddog Diogelu Data Cyngor Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4UW e-bostiwch ysgolionllywodraethugwybodaeth@cardiff.gov.uk
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bostiwch SwyddogDiogelu.Data@gov.cymru
- Llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
- mae gwybodaeth hefyd ar gael gan www.ico.gov.uk